Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr
**Brewery Lane**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF31 4AP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/09/2012**

## Cyd-destun

Mae gan Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr boblogaeth o 134,564. Y dref fwyaf yw Pen-y-bont ar Ogwr, yna Maesteg a chyrchfan glan môr Porthcawl. Mae wyth ardal Cymunedau yn Gyntaf sy'n cynrychioli rhai o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos bod tua 3% o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn dod o gymunedau lleiafrifoedd ethnig ac mae canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg (15.5%) yn is na chyfartaledd Cymru, sef 24.8%.

Mae Arolwg Blynyddol 2011 o'r Boblogaeth yn dangos bod 70.2% o bobl 16-64 oed mewn gwaith o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 66.2%. Roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd ym Medi 2011 yn 21.6%, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 23.5%. Y sectorau cyflogaeth mwyaf yn y fwrdeistref sirol yw cyfanwerthu, adwerthu, trafnidiaeth, gwestai a bwyd, yna gweinyddu cyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd.

Mae gan y fwrdeistref sirol gyfradd is o oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau (11.3%) o'i chymharu â chyfartaledd Cymru, sef 12.1%. Er bod mwy o bobl yn byw yn y fwrdeistref sirol sydd wedi cymhwyso i lefel 3 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC) (21.6%) na chyfartaledd Cymru, sef 20.4%, mae ychydig yn llai o bobl sydd wedi cymhwyso i Lefel 2 y FfCC (21.1%) o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 21.4%. Yn yr un modd, mae llai o bobl yn y fwrdeistref sirol sydd wedi cymhwyso i Lefel 4 ac uwch y FfCC (29.3%) na chyfartaledd Cymru, sef 30.6%.

### Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr

Y ddau brif ddarparwr ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw Coleg Penybont, sy'n gyfrifol am ryw ddwy ran o dair o'r ddarpariaeth, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n cyflwyno chwarter y ddarpariaeth. Caiff gweddill y ddarpariaeth ei gyflwyno gan amrywiaeth o ddarparwyr y sector gwirfoddol. Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOG) Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys ystod o fudiadau'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;
- Coleg Penybont;
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO);
- Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (CAG) De Cymru; a
- Chanolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg.

Mae'r cyfeiriad strategol ar gyfer y ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn y Fwrdeistref Sirol yn cael ei oruchwylio gan is-grŵp medrau Partneriaeth Adfywio ac Amgylchedd Pen-y-bont ar Ogwr. Arolygwyd Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr ddiwethaf ym Mai 2007.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Bernir bod y bartneriaeth yn anfoddhaol oherwydd:

- bod gormod o ddysgwyr nad ydynt yn cwblhau eu dysgu yn llwyddiannus o gymharu â dysgwyr mewn darparwyr eraill ac yn ôl cymaryddion data cenedlaethol;
- nid yw llawer o ddysgwyr yn mynd ymlaen i gyrsiau lefel uwch;
- nid yw asesu dysgu yn ddigon effeithiol i helpu dysgwyr i wella'u deilliannau;
- at ei gilydd, nid yw'r bartneriaeth yn cydlynu ei gofal, cymorth ac arweiniad yn ddigon da;
- mae trefniadau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm yn wan;
- nis oes digon o sylw i gynllunio strategol a rheoli dysgu oedolion yn y gymuned er mwyn cynnig arweiniad na chyfeiriad i'r ddarpariaeth;
- nid yw wedi datblygu systemau'n llawn eto i fonitro, arfarnu a chraffu ar ansawdd ac effaith ei gwaith, na'i herio; a
- gwnaed cynnydd araf iawn o ran mynd i'r afael yn llawn ag argymhellion yr arolygiad diwethaf.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella'r bartneriaeth yn ddigonol oherwydd:

- mae llawer o newidiadau yn rhy ddiweddar i arfarnu'r effaith ar reolaeth strategol;
- mae'r bartneriaeth yn araf i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella; ac
- nid yw cynllunio parhad y bartneriaeth i sicrhau agweddau allweddol ar ddarpariaeth yn ddigon cadarn.

Fodd bynnag:

- mae'r bartneriaeth wedi datblygu'i darpariaeth i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn well. Mae partneriaid yn dangos parodrwydd da i weithio gyda'i gilydd yn y bartneriaeth a chyda mudiadau allanol, i leihau dyblygu, datblygu rhaglenni gwaith newydd ac ymestyn y ddarpariaeth i ddysgwyr;
- mae cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant yn dangos tuedd at i fyny ar gyfer y ddarpariaeth a gyflwynir yn uniongyrchol gan Goleg Penybont a'i darpariaeth dan fasnachfraint;
- yn ddiweddar, mae'r ddau brif ddarparwr wedi rhoi proses arsylwi asesedig wedi'i safoni a'i chymedroli ar waith ac wedi cwblhau dau arolygiad mewnol o ddarpariaeth DOG Coleg Penybont a'r ddarpariaeth dan fasnachfraint; ac
- mae partneriaid yn dangos ymwybyddiaeth o'r angen i ddatblygu'r bartneriaeth DOG.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, dylai'r bartneriaeth:

A1 wella cyfraddau llwyddiant i bob dysgwr yn unol â chymaryddion cenedlaethol a chynyddu nifer y dysgwyr sy'n symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch;

A2 gwella'r broses o asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn gwybod beth y mae angen iddynt ei wneud i wella'u deilliannau;

A3 gwella cynllunio'r cwricwlwm i:

- nodi angen;
- nodi grwpiau targed;
- cynllunio llwybrau dilyniant; a
- chynyddu cyfleoedd dysgu dwyieithog a dysgu cyfrwng Cymraeg;

A4 gwella cynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer medrau hanfodol;

A5 gwella cydlynu gofal, cymorth ac arweiniad i wneud yn siŵr ei fod yn helpu dysgwyr i wella'r safonau y maent yn eu cyflawni;

A6 gwella cynllunio dysgu oedolion yn y gymuned yn strategol er mwyn:

- cytuno ar nodau ac amcanion strategol;
- nodi dangosyddion perfformiad a thargedau mesuradwy;
- cytuno ar gyfrifoldebau partneriaid; a
- gwella gallu'r bartneriaeth i gydlynu ei gwaith; a

A7 gwella systemau i fonitro ac arfarnu perfformiad y bartneriaeth a'r trefniadau ar gyfer craffu ar ansawdd ac effaith gwaith y bartneriaeth, a'i herio.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Oherwydd natur anfoddhaol y ddarpariaeth a arolygwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r tîm arolygu yn barnu y bydd Partneriaeth DOG Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei harolygu eto ymhen 18-24 mis.

Ffocws yr ailarolygiad fydd y cynnydd a wnaed gan y bartneriaeth yn mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn y cwestiynau allweddol a'r dangosyddion ansawdd hynny y barnwyd eu bod yn ddigonol ac yn anfoddhaol. Bydd tîm yr ailarolygiad hefyd yn arfarnu'r cynnydd a wnaed gan y bartneriaeth yn bodloni pob un o'r argymhellion o'r arolygiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

At ei gilydd, mae'r gyfradd cwblhau llwyddiannus sy'n cael ei chyflawni gan ddysgwyr yn agos at gymaryddion cenedlaethol neu ymhell islaw'r rhain yn y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae gormod o ddysgwyr yn methu cwblhau eu cwrs yn llwyddiannus. Nid yw chwarter o ddysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus yn narpariaeth dan fasnachfraint y coleg, sydd gerllaw'r cymharydd cenedlaethol. Nid yw un ar hugain y cant o ddysgwyr yn cyflawni eu cymwysterau'n llwyddiannus yn y ddarpariaeth sy'n cael ei chyflwyno'n uniongyrchol gan Goleg Penybont, sydd ymhell islaw'r cymharydd cenedlaethol. Er bod dysgwyr yn narpariaeth yr awdurdod lleol yn llwyddo i gwblhau eu cyrsiau'n dda o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, nid yw un o bob pump o'r dysgwyr hyn yn cyflawni cwblhad llwyddiannus.

Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau Addysg Sylfaenol Oedolion (ASO) yn gweithio tuag at gymwysterau Medrau Hanfodol Cymru. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da mewn dosbarthiadau ac yn dysgu medrau newydd. Fodd bynnag, mae cwblhau cyrsiau ASO yn llwyddiannus ychydig islaw cymaryddion cenedlaethol. Nid yw digon o ddysgwyr yn cyflawni credyd ar gyfer medrau penodol i gydnabod camau dysgu bychain. Nid yw ychydig ddysgwyr mewn dosbarthiadau ASO yn dilyn cymwysterau ar lefel sy'n herio'u cynnydd yn ddigon da. Mae ychydig ddysgwyr sy'n dilyn medrau hanfodol yn cyflawni ystod o ddeilliannau achrededig mewn pynciau gwahanol, gan gynnwys Saesneg, coginio a mathemateg. Fodd bynnag, nid oes digon o ddysgwyr yn symud ymlaen i gyrsiau lefel un a lefel dau.

Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) yn gweithio tuag at gymwysterau Medrau Bywyd perthnasol a gwnânt gynnydd da mewn dosbarthiadau. Mae lleiafrif ohonynt yn ennill y medrau a'r cymwysterau sy'n angenrheidiol ar gyfer dinasyddiaeth. Mae deilliannau llwyddiannus ar gyfer cyrsiau SSIE yn debyg i'r cymharydd cenedlaethol.

Mae dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau DOG yn gwneud cynnydd da mewn dosbarthiadau ac mae ychydig ddysgwyr yn cyfuno cyrsiau dysgu oedolion â dosbarthiadau llythrennedd a rhifedd penodol. Mae dysgwyr sy'n dilyn ffotograffiaeth ddigidol yn dangos dealltwriaeth dda o egwyddorion sylfaenol agweddau technegol ar ffotograffiaeth. Maent yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn rhannu eu gwaith yn dda gyda'i gilydd. Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau Ffrangeg i ddechreuwyr yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd da. Mae ganddynt ynganiad da a gafael dda ar ymadroddion bob dydd. Fodd bynnag, mewn ychydig ddosbarthiadau, nid yw digon o ddysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon da fel rhan o'u cwrs. Nid yw llawer o ddysgwyr yn symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch.

Mae mwyafrif o ddysgwyr yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol yn dda i osod targedau a monitro ac olrhain eu cynnydd eu hunain. Fodd bynnag, nid oes gan ychydig ddysgwyr gynlluniau dysgu unigol fel rhan o'u cwrs. Mae gan ychydig ddysgwyr gynlluniau sydd â thargedau dosbarth cyffredinol ac nid ydynt yn gallu monitro eu cynnydd unigol eu hunain yn ddigon da.

Nid yw siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'u Cymraeg yn ddigon da mewn dosbarthiadau. Nid yw dysgwyr ar draws pob darparwr yn datblygu eu dealltwriaeth o Gymru, y Gymraeg a diwylliant Cymru yn ddigon da.

**Lles: Da**

Mae mwyafrif y dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi os oes digwyddiad neu broblem. Mae presenoldeb dysgwyr yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn arddangos lefelau uchel o symbyliad a brwdfrydedd i gyflawni. Mae mwyafrif y dysgwyr yn mwynhau'r her o ddysgu ac maent o'r farn bod eu tiwtoriaid yn eu cefnogi'n dda. Er enghraifft, mae dysgwyr sy'n dilyn Camau Cyntaf at ddod yn Weithiwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dilyn y cwrs i wella'u rhagolygon cyflogaeth ac maent yn mwynhau dysgu medrau newydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau eu dysgu ac yn cymryd rhan yn dda yn y dosbarth. Mae dysgwyr yn frwdfrydig ac yn cefnogi ei gilydd yn dda. Mae dysgwyr yn helpu i feithrin amgylchedd da i ddatblygu eu medrau dysgu eu hunain. Er enghraifft, mae dysgwyr mewn Ffrangeg a medrau hanfodol yn ymroi yn dda i'w dysgu ac yn ymgymryd â thasgau gyda brwdfrydedd.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymhwyso'u medrau newydd er budd eu cymunedau, fel bod yn ysgrifennydd clwb karate, hyfforddwr tîm pêl-droed a chadeirydd clwb y tu allan i oriau ysgol. Mae un dysgwr SSIE yn gwirfoddoli mewn siop elusennol i wella'i medrau iaith. Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio'u dysgu i wella'u cyfleoedd cyflogaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a dysgu da. Mae mwyafrif o ddysgwyr wedi gwella'u hunanhyder a'u hyder yn eu gallu i ddysgu. Mae dysgwyr mewn ffotograffiaeth yn dangos medrau arfarnu beirniadol da wrth drafod eu gwaith gydag eraill a gwrando ar eu syniadau a'u safbwyntiau. Mae llawer o ddysgwyr yn arddangos medrau dysgu annibynnol priodol.

Nid yw llawer o ddysgwyr yn ddigon ymwybodol o sut i gyfrannu at ddatblygiad eu cyrsiau na sut i ddylanwadu ar gynnwys sesiynau yn y dyfodol. Nid yw darparwyr yn helpu dysgwyr i nodi llwybrau dilyniant yn ddigon clir.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r bartneriaeth wedi datblygu ei darpariaeth i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yn well. Mae tua thraean o'r holl gyrsiau ym maes pwnc paratoi ar gyfer bywyd a gwaith. Mae'r ddarpariaeth ar gael ym mhob ardal o'r fwrdeistref sirol ac ar adegau sy'n addas i ddysgwyr.

Mae partneriaid yn gweithio'n briodol gyda'i gilydd i gynnig ystod eang o ddarpariaeth. Mae'r bartneriaeth yn ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae darparwyr wedi cyflwyno darpariaeth medrau cyn-cyflogi a medrau cyflogadwyedd, sy'n ategu rhaglenni presennol a gyflwynir gan y Gwasanaeth Llyfrgell a darpariaeth LearnDirect yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth hon wedi'i hachredu ac ar gael ar lefelau o lefel mynediad i lefel tri.

Mae Coleg Penybont yn rhoi cymorth da i ddarparwyr eraill i'w helpu i wella'u darpariaeth ar gyfer medrau hanfodol. Fodd bynnag, nid oes gan y bartneriaeth strategaeth ar gyfer datblygu medrau hanfodol ar draws ei darpariaeth ac mewn ystod ehangach o gyd-destunau. Nid yw'r bartneriaeth yn monitro ac yn arfarnu data medrau hanfodol yn ddigon da er mwyn gwella a datblygu'r ddarpariaeth.

Mae darparwyr unigol yn targedu darpariaeth yn briodol at grwpiau blaenoriaeth, gan gynnwys dysgwyr SSIE, dysgwyr anodd eu cyrraedd mewn cymunedau difreintiedig a dysgwyr sydd â phroblemau iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Mae darparwyr yn gweithio'n dda gyda chyflogwyr lleol i gyflwyno dysgu i weithwyr. Hefyd, mae darparwyr yn gweithio'n dda gydag elusennau i gyflwyno dysgu i'w cleientiaid.

Fodd bynnag, mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm yn wan. Nid yw wedi cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o anghenion sy'n nodi grwpiau targed a graddfa'r angen yn y gymuned. O ganlyniad, nid yw'r bartneriaeth yn glir ynghylch pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn bodloni anghenion cymunedau na'u dysgwyr. Mae'r bartneriaeth wedi cynnal archwiliad o ddarpariaeth a allai fod yn ddefnyddiol, sydd wedi lleihau dyblygu yn y ddarpariaeth ac wedi cynyddu cyrsiau Cymraeg i oedolion. Serch hynny, nid yw'r bartneriaeth yn cynllunio llwybrau dilyniant i ddysgwyr yn ddigon da. O ganlyniad, ni all dysgwyr nodi'r llwybrau dilyniant sydd ar gael iddynt yn hawdd ac nid yw llawer o ddysgwyr yn mynd ymlaen i lefelau dysgu uwch.

Mae cynnydd wrth ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi bod yn araf ers yr arolygiad diwethaf. Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi dirprwyo darpariaeth cyfrwng Cymraeg i Fforwm Cymraeg sy'n cynnwys ystod o fudiadau cyfrwng Cymraeg. Mae'r Fforwm wedi cynnal dadansoddiad o anghenion. O ganlyniad, mae wedi datblygu ychydig gyrsiau blasu a chyrsiau byr fel canu'r delyn a Ffrangeg trwy gyfrwng y Gymraeg mewn gwahanol rannau o'r fwrdeistref sirol.

### Addysgu: Digonol

Mae gan yr holl diwtoriaid wybodaeth bynciol dda ac maent yn cyfleu hyn yn effeithiol i ddysgwyr. Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid gynlluniau gwaith manwl a chynlluniau gwersi clir gydag amcanion dysgu penodol. Maent yn paru'r gwaith er mwyn bodloni diddordebau dysgwyr a lefel y dysgu yn dda. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu yn effeithiol i hyrwyddo dysgu gweithredol da fel tasgau unigol, gwaith pâr, ymarferion grŵp, sesiynau holi ac ateb a defnyddio gwaith cartref rheolaidd. Mae cyflymder ac arddull y rhan fwyaf o sesiynau yn bodloni anghenion dysgwyr yn dda.

Yn eu dosbarthiadau, mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi sylw da i anghenion a diddordebau dysgwyr, gyda her briodol i'w dysgu. Maent yn annog ac yn cefnogi dysgwyr yn gyson yn eu dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid yw pob agwedd ar y gwaith yn cael ei hesbonio'n ddigon da. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio cwestiynau i atgyfnerthu dysgu yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw ychydig diwtoriaid yn defnyddio digon o gwestiynau agored i asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr.

Mae pob tiwtor yn rhoi adborth llafar rheolaidd a phriodol i ddysgwyr i wella'u dealltwriaeth. Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn marcio gwaith ysgrifenedig dysgwyr yn

rheolaidd ac yn rhoi adborth clir ar safon eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw llawer o diwtoriaid yn esbonio beth y mae angen i ddysgwyr ei wneud i wella'u medrau. Yn gyffredinol, nid yw sylwadau tiwtoriaid yn ddigon penodol i helpu dysgwyr i wybod beth maent wedi'i gyflawni na sut i wella'u gwaith ymhellach. Nid yw mwyafrif y tiwtoriaid yn annog dysgwyr i arfarnu eu gwaith eu hunain, ac mae'r arfer o arfarnu gwaith pobl eraill yn gyfyngedig iawn.

Nid yw mwyafrif y tiwtoriaid yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol yn effeithiol i olrhain ac adolygu cynnydd dysgwyr. Mae tiwtoriaid yn defnyddio proffiliau grŵp mewn dosbarthiadau eraill, sy'n nodi materion penodol ynghylch dysgwyr unigol. Fodd bynnag, nid yw'r materion hyn yn cael eu defnyddio i gytuno ar gynlluniau dysgu gyda dysgwyr. O ganlyniad, ni all dysgwyr unigol olrhain eu cynnydd yn dda.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

At ei gilydd, mae darparwyr unigol yn cynnig cymorth priodol i ddysgwyr DOG. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn cydlynu ei gofal, cymorth ac arweiniad yn ddigon da. Nid yw'n arfarnu effaith ei gofal, cymorth ac arweiniad ar godi'r safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni. Ychydig iawn o gynllunio neu rannu arfer dda sy'n digwydd.

Mae Coleg Penybont yn rhoi cymorth da i ddysgwyr DOG. Er enghraifft, mae'n helpu dysgwyr â phroblemau o ran tai, iechyd meddwl a defnyddio sylweddau. Mae tiwtoriaid SSIE yn cefnogi eu dysgwyr yn dda trwy roi cyngor ac arweiniad ar ystod eang o faterion ac yn eu helpu i ymgartrefu yn eu cymunedau. Mae dysgwyr sy'n mynychu'r coleg yn cael sesiynau sefydlu defnyddiol sy'n rhoi sylw da i iechyd a diogelwch ac i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Fodd bynnag, nid yw trefniadau ar gyfer dysgwyr mewn canolfannau allymestyn wedi'u datblygu cystal.

Mae'r coleg a'r awdurdod lleol yn cynnig cymorth effeithiol i ddysgwyr sydd â dyslecsia a nam ar y clyw. Maent yn cynnig technoleg gynorthwyol i ddysgwyr â nam ar y golwg. At ei gilydd, fodd bynnag, mae diffyg cydlyniad i'r trefniadau yn y bartneriaeth ar gyfer nodi a bodloni anghenion dysgu ychwanegol. Nid yw'r bartneriaeth wedi cytuno ar brotocolau ar gyfer rhannu data, sy'n ei gwneud hi'n anodd i'r bartneriaeth fonitro'n effeithiol y nifer sy'n ymgymryd â chymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae gormod o ddysgwyr nad ydynt yn cael y math cywir o gymorth i'w helpu i lwyddo.

Nid oes gan y bartneriaeth strategaeth farchnata. Fodd bynnag, mae darparwyr unigol wedi datblygu ystod o offer marchnata effeithiol gan gynnwys gwybodaeth ar y we. Mae darparwyr yn dosbarthu llyfrynnau DOG i gartrefi a chanolfannau allweddol. Mae llawer o ddysgwyr o'r farn bod y llyfrynnau'n ddefnyddiol i gael gwybod am gyrsiau. Fodd bynnag, nid yw darparwyr yn nodi cyfleoedd dilyniant yn ddigon clir yn eu deunyddiau cwrs.

Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr ar waith gan yr holl bartneriaid. Mae gan ddarparwyr drefniadau effeithiol ar gyfer gwirio cofnodion SCT a chael geirdaon. Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant sefydlu ar ddiogelu oedolion agored i niwed. Fodd bynnag, nid oes gan y bartneriaeth unrhyw hyfforddiant safonol sy'n cynnwys pob darparwr. Mae gan y coleg bwyllgor diogelu effeithiol iawn sydd wedi datblygu nifer o fentrau defnyddiol i gadw dysgwyr yn ddiogel. Fodd bynnag, nid yw'r holl ddarparwyr yn y bartneriaeth yn aelodau o'r grŵp hwn ar hyn o bryd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

At ei gilydd, mae'r bartneriaeth yn rhoi sylw da i gydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae'n cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth priodol i'r rhan fwyaf o'i staff. Mae'r amgylchedd ym mwyafrif y dosbarthiadau yn groesawgar ac yn gwrtais. Mae'r coleg, drwy raglen Excelsior Plus[1], yn gweithio'n dda gyda busnesau bach, mentrau cymdeithasol ac elusennau i'w helpu nhw i wella'u strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Ar y cyfan, mae dysgwyr yn dangos parch mawr i farn a syniadau ei gilydd. Fodd bynnag, mewn un achos, mae'r tiwtor ac ychydig ddysgwyr yn dangos diffyg parch tuag at y Gymraeg.

Mae'r bartneriaeth yn llwyddo i greu ethos cadarnhaol sy'n cefnogi cynhwysiant cymdeithasol ac addysgol. Mae ganddi systemau da ar waith i hyrwyddo cyfleoedd dysgu i ddysgwyr o gymunedau difreintiedig, yn enwedig wrth ddatblygu medrau ar gyfer cyflogaeth. Fodd bynnag, nid yw pob dosbarth yn denu'r grwpiau targed bwriadedig.

At ei gilydd, mae lleoliadau yn cynnig cyfleusterau o ansawdd da ar gyfer dysgu ac maent yn addas at y diben. Maent wedi'u goleuo'n dda, yn gyfforddus ac yn hygyrch i ddysgwyr ag anableddau. Mae gan y rhan fwyaf o leoliadau ystod dda o adnoddau, gan gynnwys darparu gliniaduron a byrddau gwyn.

Fodd bynnag, nid yw lleoliadau yn hyrwyddo diwylliant Cymru na dwyieithrwydd yn ddigon da. Mewn ychydig achosion, mae diffyg arddangosfeydd ar hysbysfyrddau. Mae darparwyr yn colli cyfleoedd i ddod ag ysgogiad a chymeriad i amgylcheddau dysgu. Mewn dosbarthiadau ASO ac SSIE, mae darparwyr yn arddangos gwybodaeth ar waliau a hysbysfyrddau mewn arddull nad yw o gymorth i ddysgwyr sydd â medrau darllen isel.

Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw adnoddau yn addas at y diben ac maent yn effeithio'n andwyol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Er enghraifft, nid yw tiwtoriaid TGCh yn gallu cynnig arddangosiadau ymarferol o waith yn yr ystafell ddosbarth gan eu bod yn defnyddio systemau gweithredu gwahanol i'r rhai sy'n cael eu defnyddio gan ddysgwyr. Mewn ychydig achosion eraill, nid yw lleoliadau yn darparu peiriannau argraffu mewn ystafelloedd dosbarth ac ni all dysgwyr weld canlyniad eu gwaith.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Bu nifer o newidiadau i strwythurau cynllunio'r awdurdod lleol ers yr arolygiad diwethaf. Mae rheolaeth ar y ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned wedi trosglwyddo o'r Rhwydwaith Dysgu a Medrau i Grŵp Medrau Partneriaeth Adfywio ac

[1] Caiff Excelsior Plus ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'n rhan o brosiect strategol ehangach o'r enw 'Sgiliau Gweithio i Oedolion' sy'n cwmpasu ardaloedd Cydgyfeirio ESF de Cymru. Mae'r rhaglen yn helpu oedolion sydd mewn gwaith i ennill medrau a chymwysterau newydd.

Amgylchedd Pen-y-bont ar Ogwr. Nid yw'r naill grŵp na'r llall wedi rhoi digon o sylw i gynllunio dysgu oedolion yn y gymuned yn strategol. Mae hyn wedi rhwystro'r bartneriaeth DOG rhag mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

Mae gan yr awdurdod lleol strategaeth medrau gefnogol, sydd â'r nod o gynyddu nifer y bobl ddi-waith sy'n cymryd rhan mewn dysgu a gwella lefelau medrau trigolion lleol.

Fodd bynnag, nid oes gan y bartneriaeth gynllun strategol clir ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned, gydag amcanion strategol yn sylfaen iddo. Nid oes ganddi gynllun busnes clir ychwaith lle mae partneriaid yn cytuno ar dargedau i lywio eu gwaith. Yn ogystal, nid yw'r bartneriaeth wedi cytuno sut bydd yn monitro ac yn arfarnu effeithiolrwydd ei gwaith nac ystod y data i'w gasglu a'i ddadansoddi i lywio cynllunio'r bartneriaeth. Mae hyn yn atal y bartneriaeth rhag gwneud cynnydd amserol o ran cynllunio a rheoli ei pherfformiad ei hun ac arfarnu effaith ei darpariaeth. Nid yw'r bartneriaeth ychwaith yn gallu mesur ei chyfraniad at fodloni amcanion strategaeth medrau'r awdurdod.

Mae grŵp rheoli'r bartneriaeth yn cynnwys ystod dda o ddarparwyr, gan gynnwys partneriaid o'r sector gwirfoddol. Mae'r grŵp yn helpu partneriaid i wneud gwelliannau i ddarpariaeth, fel lleihau maint y dyblygu.

Fodd bynnag, nid yw'r grŵp yn cydlynu ei waith yn dda. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar ei allu i reoli a monitro gwelliant. Mae dau aelod o'r bartneriaeth wedi trafod penodi cydlynydd a threfniadau newydd ar gyfer arwain y bartneriaeth. Serch hynny, mae cynnydd o ran gweithredu ar y materion hyn wedi bod yn rhy araf.

At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r cyllid ar gyfer rhaglen allweddol, sydd â'r nod o wella paratoad dysgwyr at waith, yn dod i ben yn Awst 2012. Er bod partneriaid yn dymuno parhau i gyflwyno'r rhaglen, nid oes cynllun cytûn ar waith i wneud yn siŵr bod y ddarpariaeth yn gallu parhau.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Nid oes gan y bartneriaeth systemau da i fonitro ac arfarnu ansawdd ei darpariaeth. Nid yw'r is-grŵp medrau, na grŵp strategol y bartneriaeth, yn dadansoddi ac yn herio perfformiad y bartneriaeth yn ddigon da. Serch hynny, mae gan ddarparwyr unigol systemau addas ar waith i asesu ansawdd eu darpariaeth. Mae'r ddau brif ddarparwr, sef Coleg Penybont a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn gweithio gyda'i gilydd yn briodol i roi proses ar waith ar gyfer arsylwi ar addysgu a dysgu.

Nid yw proses hunanasesu'r bartneriaeth yn effeithiol. Nid yw'n arfarnu deilliannau dysgu oedolion yn y gymuned yn dda, yn benodol gan nad yw'n gwneud defnydd da o'r data a'r wybodaeth sydd ar gael i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella, nac i osod targedau a chynllunio ar gyfer gwella.

Ni wnaeth y bartneriaeth gynnwys pob partner wrth lunio'r adroddiad hunanasesu. Lluniodd staff uwch o Goleg Penybont a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr adroddiad hunanasesu'r bartneriaeth. Fe wnaeth grŵp gweithredol y

bartneriaeth, sy'n cynnwys ystod o bartneriaid, gymeradwyo'r adroddiad a'i ganfyddiadau. Ni wnaeth y bartneriaeth gynnwys dysgwyr neu diwtoriaid yn ddigon da yn y broses hunanasesu. At ei gilydd, nid oes cyfatebiaeth dda rhwng canfyddiadau'r bartneriaeth a chanfyddiadau tîm arolygu Estyn.

Mae gan yr holl ddarparwyr yn y bartneriaeth strategaethau ar gyfer gwrando ar ddysgwyr a'u cynnwys. Fodd bynnag, nid oes gan y bartneriaeth gynllun cyffredinol ar gyfer cynnwys dysgwyr.

Nid yw cynllun y bartneriaeth ar gyfer gwella yn ddigon da. Nid yw meini prawf llwyddiant yn glir ac mae diffyg her ynddynt. Mae'r camau gweithredu a nodwyd gan y bartneriaeth yn canolbwyntio'n ormodol ar faterion gweithredol. Nid ydynt yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â rheoli'r bartneriaeth yn ddigon da. Nid yw'r bartneriaeth wedi nodi pa bartneriaid fydd yn cymryd cyfrifoldeb am ei chamau gwella.

Nid yw'r bartneriaeth wedi mynd i'r afael â llawer o'r problemau a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn 2007 yn effeithiol. Nid yw'r bartneriaeth wedi gwella'i phrosesau ar gyfer cynllunio, sicrhau ansawdd na chydlynu cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Nid yw ychwaith wedi gwella cyfleoedd ar gyfer dysgu dwyieithog i unrhyw raddau helaeth.

### Gweithio mewn partneriaeth: Digonol

Mae darparwyr unigol yn gweithio gyda'i gilydd yn foddhaol i ddatblygu rhaglenni gwaith yn unol â'r strategaeth medrau. Maent yn cyfuno'n briodol i rannu adnoddau ac arbenigedd, cynyddu cyllid ac ymestyn ystod y ddarpariaeth sydd ar gael ar draws y fwrdeistref sirol.

Er enghraifft, mae darparwyr wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd i sicrhau cyllid ychwanegol o ffynonellau allanol ar gyfer rhaglenni fel Pontydd i Waith – sy'n helpu pobl i wella'u medrau a chynyddu eu siawns o gael swydd, a rhaglen Excelsior. Mae staff o Goleg Penybont yn gweithio'n dda i hyfforddi staff o Glybiau Gwaith i helpu dysgwyr i allu manteisio ar gyrsiau LearnDirect. Fodd bynnag, nid yw darparwyr wedi rhoi cynlluniau dilyniant addas ar waith i barhau â'r rhaglenni hyn pan fydd y cyllid gwreiddiol yn dod i ben.

Mae gwasanaeth llyfrgell y Cyngor yn gweithio'n dda gyda darparwyr eraill i gefnogi dysgwyr i wella'u medrau sylfaenol. Mae darparwyr unigol yn gweithio'n dda gydag ystod o gyrff eraill, fel y Gymdeithas Strôc, i gynnig cyfleoedd dysgu i'w cleientiaid.

Yn ddiweddar, mae Coleg Penybont a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cytuno ar gynigion i newid trefniadau ar gyfer arwain a chydlynu'r bartneriaeth. Fodd bynnag, nid ydynt wedi rhoi'r cynigion hyn ar waith.

### Rheoli adnoddau: Anfoddhaol

Mae gan fwyafrif y staff gymwysterau a phrofiad priodol ar gyfer y pynciau y maent yn eu cyflwyno. Gall yr holl staff fanteisio ar ystod dda o hyfforddiant datblygu proffesiynol a chyfleoedd i rannu arfer dda mewn addysgu a dysgu. Mae nifer o enghreifftiau da o bartneriaid yn rhannu adnoddau i gynnig gweithgareddau hyfforddi ar y cyd. Fodd bynnag, nid oes gan y bartneriaeth ddull cynlluniedig o ddatblygu staff. Nid yw'n gwneud digon i fesur effaith gweithgareddau datblygu staff ar wella safonau dysgwyr ac ar ansawdd addysgu ac asesu.

Mae'r bartneriaeth yn gwneud defnydd da o ffynonellau cyllid allanol i gyflwyno darpariaeth oedolion yn y gymuned ar draws y sir.  Fodd bynnag, nid oes gan y bartneriaeth unrhyw strategaethau gadael diffiniedig ar gyfer y math hwn o ddarpariaeth.  O ganlyniad, nid yw'r bartneriaeth yn siŵr a yw'n gallu parhau i fodloni ei blaenoriaethau pan fydd y ffynonellau cyllid hyn yn dod i ben.

At ei gilydd, mae darparwyr yn defnyddio data demograffig yn briodol i gyfeirio adnoddau i feysydd lle mae'r angen mwyaf amdanynt ac i ddysgwyr ag anghenion medrau hanfodol.  Mewn ychydig achosion, mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i leihau dyblygu trwy gytuno pa bartner yw'r un mwyaf priodol i gyflwyno cyrsiau.  Fodd bynnag, nid oes gan y bartneriaeth strategaeth farchnata ar y cyd i recriwtio dysgwyr ac i gefnogi eu dilyniant i ddysgu pellach.  Mae gan leoliadau gyfarpar da ond dim ond mewn ychydig iawn o achosion y mae partneriaid yn rhannu adeiladau ac offer i leihau costau.

Nid oes gan y bartneriaeth strategaeth i arfarnu effaith adnoddau ar ddeilliannau dysgwyr, sy'n anfoddhaol, ac nid yw'n gwybod a yw cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.  Felly, mae'r tîm arolygu yn barnu bod y bartneriaeth yn darparu gwerth anfoddhaol am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Cynhaliodd Estyn arolwg o ddysgwyr ychydig cyn yr arolygiad o'r bartneriaeth.

Fe wnaeth dau gant a phum deg un o ddysgwyr ddychwelyd yr holiadur yn llwyddiannus a chwblhaodd y rhan fwyaf ohonynt y rhan fwyaf o'r cwestiynau. Fe wnaeth y canfyddiadau helpu Estyn i gael darlun o farn a phrofiad dysgwyr o'r ddarpariaeth a gyflwynir ar hyn o bryd yn ardal y bartneriaeth.

Roedd bron pob un o'r dysgwyr o'r farn bod cymryd rhan yn y dysgu wedi'u helpu nhw i wella'u medrau bywyd ac y byddai'n eu helpu i gyflawni eu nodau. Hefyd, roedd llawer o ddysgwyr o'r farn bod cymryd rhan mewn dysgu wedi'u helpu nhw i gymryd rhan yn eu cymuned. Byddai bron pob un o'r dysgwyr yn argymell eu darparwr dysgu i bobl eraill. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau eu dysgu.

Roedd bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'u bod wedi cael gwybodaeth dda pan oeddent yn dewis pa gwrs i'w ddilyn. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ystyried eu bod wedi cael cyngor da am yr hyn y gallent ei wneud ar ôl iddynt orffen eu rhaglen ddysgu. Dywedodd bron pob un o'r dysgwyr eu bod wedi cael cymorth personol da gan eu tiwtoriaid, yn enwedig yn ystod wythnosau cyntaf eu rhaglen ddysgu.

Roedd bron pob un o'r dysgwyr o'r farn bod staff wedi'u helpu i ddysgu a gwneud cynnydd da. Mae bron pob un o'r staff yn dangos parch tuag at ddysgwyr ac yn gwrando ar eu barn. Mae bron pob un o'r staff yn defnyddio deunyddiau dysgu o ansawdd da a gall bron pob un o'r dysgwyr fanteisio'n ddigonol ar lyfrau ac offer i'w helpu i wneud eu gwaith.

Fodd bynnag, roedd ychydig ddysgwyr o'r farn nad oedd staff yn rhoi digon o gyfle iddynt ddewis dysgu naill ai yn Gymraeg neu Saesneg.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Liam Kealy AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Ann Jones AEM | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick AEM | Arolygydd Tîm |
| Rachael Bubalo AEM | Arolygydd Tîm |
| Gill Sims AEM | Arolygydd Tîm |
| Cefin Campbell | Arolygydd Tîm |
| Betty Mason | Arolygydd Cymheiriaid |
| Siân Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Robert Evans | Enwebai'r Darparwr |